# Newyddlen demograffeg
# Llywodraeth Cymru, Mawrth 2020

## Amcanestyniadau ar gyfer awdurdodau lleol Cymru ar sail 2018

Cafodd amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol ar sail 2018 eu cyhoeddi ar 27 Chwefror 2020. Mae'r amcanestyniadau yn dynodi maint a strwythur oed posibl y boblogaeth yn y dyfodol ar gyfer awdurdodau Lleol yng Nghymru yn ystod y cyfnod o 2018 i 2043.

Mae'r datganiad yn cynnwys amcanestyniadau ar gyfer awdurdodau lleol ar sail 2018, sy'n cynnwys amcanestyniadau amrywiadol o'r boblogaeth, ac yn rhoi trosolwg eang o'r prif ganlyniadau. Caiff datganiad arall ei gyhoeddi, sy'n cynnig mwy o fanylion am yr amcanestyniadau, ynghyd â chynnwys amcanestyniadau o'r boblogaeth sy'n seiliedig ar 2018 ar gyfer Parciau Cenedlaethol, ym mis Mawrth 2020. Rydym hefyd yn bwriadu cynnwys amrywiadau ychwanegol.

Yn ystod y cyfnod o 2018 i 2028:

- rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu yn y mwyafrif o'r awdurdodau lleol
- poblogaethau'r awdurdodau lleol y rhagwelir y byddant yn cynyddu'r mwyaf yw Casnewydd (5.1%), Bro Morgannwg (3.6%) a Phen-y-bont ar Ogwr (2.9%)
- rhagwelir y bydd y boblogaeth yn lleihau mewn naw o'r 22 o awdurdodau lleol
- poblogaethau'r awdurdodau lleol y rhagwelir y byddant yn lleihau'r mwyaf yw Ceredigion (6.4%), Wrecsam (3.2%) a Phowys (2.8%)

## Amcanestyniadau o aelwydydd Cymru yn ôl awdurdod lleol ar sail 2018

Cafodd amcanestyniadau o aelwydydd yn ôl awdurdod lleol ar sail 2018 eu cyhoeddi ar 27 Chwefror 2020.  Mae'r amcanestyniadau yn dynodi nifer a chyfansoddiad yr aelwydydd yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r datganiad yn cynnwys amcanestyniadau ar gyfer awdurdodau lleol ar sail 2018, sy'n cynnwys amcanestyniadau amrywiadol o aelwydydd, ac yn rhoi trosolwg eang o'r prif ganlyniadau. Caiff datganiad arall ei gyhoeddi, a fydd yn cynnig mwy o fanylion am yr amcanestyniadau, ynghyd â chynnwys amcanestyniadau o aelwydydd sy'n seiliedig ar 2018 ar gyfer Parciau Cenedlaethol, ym mis Mawrth 2020. Rydym hefyd yn bwriadu cynnwys amrywiadau ychwanegol.

Yn ystod y cyfnod o 2018 i 2028:

- rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd yn cynyddu yn y mwyafrif o awdurdodau lleol, ac ar lefel Cymru gyfan rhagwelir y bydd cyfanswm nifer yr aelwydydd yn cynyddu 2.8%
- nifer aelwydydd yr awdurdodau lleol y rhagwelir y byddant yn cynyddu'r mwyaf yw Casnewydd (6.9%), Bro Morgannwg (6.6%) a Chaerdydd (5.0%)
- rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd yn lleihau mewn pump o'r 22 o awdurdodau lleol
- nifer aelwydydd yr awdurdodau lleol y rhagwelir y byddant yn lleihau'r mwyaf yw Ceredigion (4.8%), Ynys Môn (0.7%) a Wrecsam (0.7%).

## Amcangyfrifon aelwydydd: canol 2018

Cafodd y datganiad ystadegol Amcangyfrifon Aelwydydd: canol 2018 ei gyhoeddi ar 17 Rhagfyr 2019. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am nifer yr aelwydydd a amcangyfrifir yn ôl y math o aelwyd, poblogaeth a maint cyfartalog yr aelwyd. Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar amcangyfrifon o'r boblogaeth canol 2018, a gafodd eu cyhoeddi ym mis Mehefin 2019.

Rhwng canol 2017 a chanol 2018, roedd nifer yr aelwydydd a amcangyfrifwyd yng Nghymru wedi cynyddu 8,800 (neu 0.7%), i 1.36 miliwn. Roedd y cynnydd cyffredinol o ganlyniad i aelwydydd un person a dau berson yn bennaf, a'r mathau hynny o aelwydydd yw'r rhai mwyaf cyffredin yng Nghymru o hyd, yn seiliedig ar yr amcangyfrifon hyn.

Ar lefel Cymru gyfan, mae poblogaeth aelwydydd preifat wedi cynyddu tua 13,200 rhwng canol 2017 a chanol 2018. Mae maint cyfartalog aelwydydd yng Nghymru a amcangyfrifir wedi bod yn lleihau'n raddol; yng nghanol 2018 amcangyfrifwyd mai maint cyfartalog aelwydydd yng Nghymru oedd 2.27 person fesul aelwyd o'i gymharu â 2.52 person fesul aelwyd ganol 1991.

## Mudo rhyngwladol hirdymor

Ar 27 Chwefror, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ei hadroddiad chwarterol diweddaraf o'r ystadegau mudo, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2019. Mae'n dwyn ynghyd yr ystadegau ar fudo a gyhoeddir gan Swyddfa Gartref y DU, Adran Gwaith a Phensiynau y DU, a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

## Data ar y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Ar 22 Ionawr, cyhoeddwyd canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn o fis Hydref 2018 i fis Medi 2019.

## Dadansoddiad archwiliol o berfformiad dysgwyr gan gynnwys nodweddion ar y Gymraeg 2011 i 2018

Cafodd dadansoddiad archwiliol o berfformiad dysgwyr yn ôl nodweddion y dysgwr a'r ysgol, gan gynnwys nodweddion ar y Gymraeg fel erthygl ystadegol ar wefan Llywodraeth Cymru ar 13 Chwefror.

## Manylion cyswllt

Ffôn: 0300 025 0373

E-bost: ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru